Ysgol Gynradd Henblas,Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net

5/9/2024
Annwyl riant/gwarcheidwad,

Croeso i'r flwyddyn academaidd newydd! Rydym yn gyffrous at y flwyddyn newydd a'r holl brofiadau y byddwn yn fwynhau gyda'n gilydd. Ar ôl trafodaeth gyda'r dosbarth ar ddiwedd tymor yr haf, rydym wedi dewis thema newydd ar gyfer y tymor sef 'Lliwiau.'

Byddwn yn cychwyn gwaith ar ein thema drwy sbardun llyfr 'Y Lleidr Lliwiau' gan Nia Morgan. Yn ystod y thema bydd cyfle i'r disgyblion:

- gynnal arbrofion lliwiau
- ddysgu am liwiau craidd ac eilaidd
- greu darnau celf gan efelychu gwaith artistiaid enwog a lleol
- fynd ar ymweliadau addysgol
- fynd ar helfa lliwiau hydrefol
- ddysgu am effaith y tymhorau ar liwiau yn y byd natur
- ddysgu am ddathliadau lliwgar o fewn crefyddau'r byd

Gofynnwn i chi drafod y thema gyda'ch plentyn a llenwi'r holiadur isod gyda'ch syniadau a sylwadau.

https://forms.gle/ppUv9kUTsupoh2GB8

Bydd addysg gorfforol ar Ddydd Mawrth eleni. Gofynnwn i blant gyrraedd yr ysgol yn eu gwisg addysg gorfforol os gwelwch yn dda.

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn dod a'u llyfrau darllen i'r ysgol bob dydd gan sicrhau eich bod wedi llenwi'r cofnod darllen ar ôl darllen gyda'ch plentyn adref. Mae eich sylwadau yn werthfawr iawn i ni wrth symud eich plentyn yn eu blaenau.

Ym mis Medi rydym, fel dosbarth, am dreialu system newydd o 'Caffi Bore', ble bydd eich plentyn yn cael cyfle i dderbyn byrbryd (e.e ffrwyth, bisged, tost) a llefrith bob bore. Yn y caffi bydd y plant yn dysgu sut i baratoi byrbryd, pwyso cynhwysion, adnabod arian ac ysgrifennu rhestr siopa bob wythnos. Bydd taliad o £1 yr wythnos yn galluogi eich plentyn i dderbyn byrbryd o'r caffi a gofynnwn yn garedig i'r taliad gael ei wneud ar fore Llun a'i anfon fel arian parod gyda'ch plentyn mewn amlen wedi'i labelu os gwelwch yn dda.

Gofynnwn yn garedig i chi labelu popeth sydd yn eiddo i'ch plentyn - gwisg ysgol, esgidiau, bagiau ayyb. Hefyd, oherwydd fod damweiniau yn digwydd o dro i dro, mae gofyn rhoi dillad sbâr ym mag eich plentyn bob dydd os gwelwch yn dda.

Diolch i chi am eich amser yn darllen y llythyr hwn ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'ch plentyn ym mlwyddyn academaidd 2024-2025.

Cofion,

Erin Owen
Athrawes y dosbarth melyn (blwyddyn meithrin a derbyn)

5/9/2024

Dear Parent/Guardian,
Welcome to the new academic year! We are excited for the new year and all the experiences we will enjoy together. After a discussion with the class at the end of the summer term, we have chosen a new theme for the term which is 'Colours.'

We will start work on our theme by reading 'The Colour Thief' by Nia Morgan. During the theme pupils will have the opportunity to:

- conduct colour experiments
- learn about primary and secondary colours
- create art pieces imitating the work of famous and local artists
- learn on educational visits
- go on an autumnal colour hunt
- learn about the impact of seasons on colours in nature
- learn about colourful celebrations within religions around the world

We ask that you discuss the theme with your child and complete the questionnaire below with your ideas and comments
https://forms.gle/ppUv9kUTsupoh2GB8

PE will be on Tuesday this year. We ask children to arrive at school in their PE clothes please.

We kindly ask you to ensure that your child brings their reading books to school every day ensuring that you have filled out the reading record after reading with your child at home. Your comments are valuable to us in moving your child forward.

In September we, as a class, want to trial a new system of 'Morning Cafe', where your child will have the opportunity to receive a snack (e.g. fruit, biscuit, toast) and milk every morning. In the cafe the children will learn how to prepare a snack, weigh ingredients, recognise money and write a shopping list each week. A payment of £1 each week will enable your child to receive a snack from the cafe and we kindly ask that the payment be made on a Monday morning and sent in as cash with your child in a labelled envelope.

Please label everything your child owns - school uniform, shoes, bags etc. Also, because accidents happen from time to time, please put spare clothes in your child's bag every day.

Thank you for taking the time to read this letter and I look forward to working with you and your child in the 2024-2025 academic year.

Kind regards,

Erin Owen
Yellow class teacher (years nursery and reception)